

## Entrepreneuriaeth leuenctid - Adroddiad Effaith 2021



Nod Coleg Cambria ydy “datblygu a meithrin pobl ifanc hunangynhaliol, entrepreneuraidd ac arloesol yng Ngogledd Ddwyrain Cymru, a fydd yn cyfrannu’n bositif at lwyddiant economaidd a chymdeithasol yr ardal”.

Fel y gwelir yn y ffigyrau uchod, mae’r prosiect hwn a ariennir wedi galluogi entrepreneuriaeth yng Ngholeg Cambria wrth alluogi staff ac adrannau i arwain a chysylltu â rhanddeiliaid allanol (wyneb yn wyneb ac yn rhithiol) gyda chefnogaeth Hyrwyddwr Entrepreneuriaeth. Wrth wneud hyn mae’n cyflymu uchelgais entrepreneuriaeth y myfyrwyr o gynhyrchu syniad i ddechrau busnes.

Ein prif flaenoriaethau yw:

- Codi ymwybyddiaeth o entrepreneuriaeth ymysg yr holl ddysgwyr a staff yng Ngholeg Cambria (llawn amser/rhan amser) i ddechrau creu diddordeb a chynyddu cyfranogiad mewn dechrau busnes.
- Datblygu a chyfathrebu taith cwsmer clir, yn ochr ag ymrwymiad i hyrwyddo’r iaith Gymraeg fel sgil hanfodol ar gyfer y gwaith a hybu diwylliant a threftadaeth Gymraeg.
- Cadw ar flaen y gad gyda chyfathrebu â dysgwyr a gweithio trwy ddefnyddio technolegau digidol.
- Cydweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allanol.
- Gosod darpariaeth Entrepreneuriaeth leuenctid mewn addysgu a dysgu.
- Sefydlu a gosod system gynhwysfawr ar gyfer dilyn gwaith at Gyn-fyfyrwyr.

Mae’r raffeg uchod yn cyd-fynd â chyfleoedd ar hyd taith entrepreneuriaeth ein myfyrwyr yng Ngholeg Cambria: <https://www.cambria.ac.uk/web/entrepreneurial-journey/>

Mae priodoleddau entrepreneuraidd wedi profi i fod yn sgiliau bywyd allweddol i fyfyrwyr wrth iddynt baratoi ar gyfer bywyd ar ôl Coleg Cambria mewn byd lle mae Covid yn dal i fod yn bresennol. Roedd y prosiect a ariannwyd gan Entrepreneuriaeth leuenctid yn allweddol mewn cynnig cyfleoedd i ddatblygu a

## Entrepreneuriaeth Ieuencid - Adroddiad Effaith 2021

chymhwyso sgiliau fel creadigrwydd, meddylfryd rhagweithiol, arloesedd, datrys problemau, rheoli amser a gwytnwch.

### GALLUOGI:

Mae codi ymwybyddiaeth o entrepreneuriaeth ymysg myfyrwyr Coleg Cambria a staff o'r pwys mwyaf er mwyn i'r prosiect hwn gael effaith hir dymor ac arwyddocaol. Cynigwyd dewis o weithgareddau i staff cwricwlwm er mwyn eu galluogi i gyflawni hyn - gan gynnwys gweithgareddau wyneb yn wyneb a rhithiol ar bob lefel. Roedd blaenoriaethau Cenedlaethau'r Dyfodol yn gallu cael eu harchwilio gan yr holl ddsbarthiadau llawn amser trwy Raglen Fugeiliol Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys Cymru Ffyniannus a Chymru Gydnerth. Roedd hyn yn galluogi staff (Tiwtoriaid ac Anogwyr Cynnydd) a myfyrwyr i ymchwilio i entrepreneuriaeth a'i bwysigrwydd ymhob agwedd o fywyd yng Nghymru a dyheadau yn y dyfodol.

Cafodd 279 aelod o staff eu cefnogi gan yr Hyrwyddwr Entrepreneuriaeth i ddatblygu a darparu gweithgareddau entrepreneuriaid ar draws Astudiaethau Academaidd, Astudiaethau Technegol a'r Sefydliad Technoleg a Staff Cefnogi Busnes ar draws pob safle er mwyn cefnogi a/neu dangos y ffordd i fyfyrwyr ar eu taith entrepreneuriaid yng Ngholeg Cambria.

Roedd hyn yn cynnwys tîm craidd o 40+ o Anogwyr Cynnydd y bu'n hyrwyddo entrepreneuriaeth a chyflogadwyedd yn eu hardaloedd trwy sesiynau wythnosol Rhaglen Fugeiliol Cenedlaethau'r Dyfodol gyda dysgwyr llawn amser yn canolbwyntio ar feddylfryd entrepreneuriaid, agweddau ac ymddygiadau er mwyn addasu i'r byd gwaith ac astudio newidiol. Roedd hyn hefyd yn cynnwys dros 90 tiwtor Tystysgrif Her Sgiliau Uwch a fanteisiodd ar sesiynau Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar Fentergarwch a Chyflogadwyedd pwrpasol.

### YMGYSYLLTU:

Cafodd Entrepreneuriaeth ei hyrwyddo i dros 5651 o fyfyrwyr yng Ngholeg Cambria yn 2021 mewn amryw o ffyrdd: diwrnodau/nosweithiau agored (wyneb yn wyneb ac ar-lein), Senedd y Myfyrwyr, ffair y glas rhithiol ac wyneb yn wyneb ar bob safle ym mis Medi, diwrnod Sgiliau ar gyfer Llwyddiant yn Lloneurgain ym mis Mai yn ogystal â sesiynau wyneb yn wyneb a rhithiol dan arweiniad un ai ein hyrwyddwr entrepreneuriaeth neu Fodelau Rôl Syniadau Mawr Cymru.

Mae Entrepreneuriaeth yn ymddangos yn gryf o ddiwrnod cyntaf y tymor, gan gynnwys dangos y ffordd at gefnogaeth yng Ngholeg Cambria: <https://www.cambria.ac.uk/web/entrepreneurial-journey/>

Cafodd 60 sefydliad ei gynrychioli yn ein Ffair y Glas rhithiol gyntaf, roeddent yn darparu adnoddau ar-lein, gwybodaeth a chynigion ar gyfer gwaith gwirfoddol i fyfyrwyr newydd. Mae'r digwyddiad hwn yn "fyw" ac ar gael drwy Google Classroom i'r holl staff a'r myfyrwyr. Gall unrhyw un sydd wedi methu'r digwyddiad hwn yn wythnos ymsefydlu ddoed o hyd i gefnogaeth ychwanegol, er mwyn cael mynd at gymunedau mewnol neu allanol sydd o ddiddordeb.

## Entrepreneuriaeth Ieuenctid - Adroddiad Effaith 2021

Crëwyd pecyn gweithgareddau cyflwyno dysgwyr ar gyfer pob dosbarth yng Ngholeg Cambria, a ddarparwyd gan Anogwyr Cynnydd. Wrth wneud hyn cafodd Her Covid Coleg Cambria ei lansio, a oedd i bob myfyriwr Addysg Bellach llawn amser.

Crëwyd sesiynau ar-lein wedi'u recordio ar gyfer yr holl staff a'r myfyrwyr: cyflwyniadau hawdd i'w deall gan gynnwys y camau cyntaf i ddechrau busnes, sut i greu cynllun busnes, rhagolygon llif arian a sut mae treth yn gweithio ar gyfer pobl hunangyflogedig a phobl gyflogedig yn ogystal â chynnal sesiynau wyneb yn wyneb cyflwyniad i Entrepreneuriaeth.

Mae ein e-gylchlythyr Llais Myfyrwyr yn hyrwyddo gweithgareddau Entrepreneuriaidd i'r holl staff a'r myfyrwyr: o aelodaeth i'r Pwyllgor Entrepreneuriaeth i gystadlaethau, yr heriau a chyfleoedd sydd ar gael ar-lein ac yn fewnol. Mae ein sianel Happeo yn hyrwyddo cyfleoedd i unigolion a dosbarthiadau yn uniongyrchol i staff.

Roedd ein diwrnod Sgiliau ar gyfer Llwyddiant yn un o uchafbwyntiau'r flwyddyn gyda dros 200 o fyfyrwyr yn manteisio ar y cyfle: 101 yno mewn person a dros 100 yn cymryd rhan ar-lein. Bwriad y diwrnod oedd i fyfyrwyr gael diwrnod rhyngweithio "byw" i ganolbwyntio ar eu camau nesaf ar ôl Coleg Cambria a/neu eu cwrs.

Cyflwynodd 20 siaradwr gwadd, gan gynnwys 10 Model Rôl Syniadau Mawr Cymru, sesiynau rhithiol gyda phob un yn gweithio ym maes (neu yn agos â) gofal anifeiliaid, yr amgylchedd, ceffyleg, cynaliadwyedd/amgylchedd neu arddwriaeth. Yn ogystal â hyn roedd y siaradwyr gwadd wedi cymryd rhan mewn fforwm cyflogwyr a staff i drafod sgiliau ar gyfer diwydiant.

Cafodd myfyrwyr gymryd rhan mewn digwyddiad "byw" cyntaf y flwyddyn a'r digwyddiad cyntaf o'i fath i gael ei gynnal yn Llaneurgain. Cafodd pob un ohonynt gyfle i gystadlu yn erbyn ei gilydd ar lefel academaidd er mwyn cael cyrraedd y brig. Cafodd myfyrwyr gyfleoedd i gyrchu amrywiaeth eang o ddsbarthiadau meistr gan arbenigwyr yn y diwydiant. Arddangosiadau oedd rhai o'r dosbarthiadau meistr hyn a rhai eraill yn cynnig cyflwyniad i yrfaoedd. Cafodd staff y cyfle i gyfarfod cyflogwyr er mwyn trafod anghenion y cymhwyster a chyfleoedd ac anghenion cyflogaeth posib. Cynhaliwyd ffair gyrfaoedd/cyflogadwyedd byr yn ystod awr ginio. Roedd yn hyrwyddo cyngor ac arweiniad am lwybrau gyrfar' dyfodol gan gynnwys hunan cyflogadwyedd ac entrepreneuriaeth. Roedd gan grwpiau weithgaredd cystadleuaeth i'w gyflwyno yn annog creadigrwydd a datblygu cyfathrebu, sgiliau digidol a sgiliau cyfryngau cymdeithasol. Roedd myfyrwyr a staff wrth eu boddau gyda'r digwyddiad - cafodd pob un y cyfle i rwydweithio gyda busnesau cenedlaethol ac entrepreneuriaid - a chanolbwyntio ar weithio tuag at ddyfodol disglair yn hytrach na'r sefyllfa Covid bresennol.

Wythnos Dechrau Busnes 2021: Aeth 18 o fyfyrwyr, gan gynnwys grŵp o 12 o fyfyrwyr UG lâl, i'r Wythnos Dechrau Busnes rithiol ym mis Mehefin. Cymerodd Cambria rôl y trysorydd yn y cydweithrediad dros Gymru gyfan rhwng Sefydliadau a Hyrwyddwyr Menter AU/AB. Roedd ein staff Cambria Heini wedi hwyluso sesiynau cadw'n heini yn ystod amser cinio am ddim ac wedi ariannu 3 siaradwr gwadd yn ystod yr Ŵyl rithiol.

Dathlwyd gweithgareddau a llwyddiannau entrepreneuraidd eleni gyda cheisiadau am y Wobr Menter yn cyrraedd uchafbwynt wrth i Riccado Dotolo, Sophie Weaver a Ben White (Coffee E Quality) gael eu dewis fel Myfyrwyr Menter fwyaf haeddiannol y flwyddyn yn y Pwyllgor Menter ac am eu cysyniad yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth a grëwyd yn ystod Hac Caredigrwydd Cymru. Dathlwyd cyflawniadau

## Entrepreneuriaeth leuenctid - Adroddiad Effaith 2021

Myfyrwyr Coleg Cambria yn ystod 2020-2021 eleni gan gyflwyno 90 gwobr:

<https://www.cambria.ac.uk/colleg-cambria-learners-have-achieved-incredible-things-in-the-past-year/>

### GRYMUSO:

Mae ein huchafbwyntiau o 2021 yn cynnwys:

Cafodd cyfleoedd dysgu entrepreneuraidd eu darparu i 3000 o fyfyrwyr gan gynnwys y cyfleoedd entrepreneuraidd all gwricwlaidd canlynol:

- Bu 70 o fyfyrwyr Celf a Dylunio yn cymryd rhan yn rhaglen *Dream Bigger* NatWest. Bu Branwen Vernon (un o'n myfyrwyr a gymerodd rhan yn y rhaglen *Dream Bigger* ym mis Ionawr) - yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau entrepreneuraidd pobl ifanc 16-18 oed) yng nghylchlythyr cyntaf erioed Rhaglen *Dream Bigger* NatWest, i gydfynd gyda Diwrnod Rhyngwladol y Merched 2021 <https://twitter.com/collegcambria/status/1369664947697942530/photo/1>
- Roedd 10 o fyfyrwyr (2 dîm) yn rhan o rownd derfynol y Gystadleuaeth Menter Genedlaethol a gafodd ei chyflwyno gan Inspirational Learning Group ac Ysgol Fusnes Prifysgol Swydd Stafford. Daeth un tîm (Brockley Bean Cafe) yn drydydd ar draws Prydain. Cyflwynwyd yr her yn rhithiol gyda dros 1000 o fyfyrwyr o 20 o golegau a cheched dosbarth (yn bennaf o Ganolbarth Lloegr) yn cymryd rhan: <https://www.inspirationallearninggroup.co.uk/whats-new/sbs-challenge-winners>
- Aeth tîm o fyfyrwyr Safon Uwch o lâl i gymryd rhan yn Gystadleuaeth Menter, Cystadleuaeth Sgiliau Cymru ar 11 Mawrth, gan gystadlu yn erbyn 8 coleg arall, gyda dros 50 o gystadleuwyr. Roedd cyfle i bob tîm bleidleisio ar gyfer y wobwr 'dewis y dysgwyr' gyda'n tîm ni yn ennill y bleidlais. Yn y pen draw enillodd y tîm y wobwr Arian gan ddod yn ail dros Gymru. Enillodd y tîm hwn y cyfle i gynrychioli'r Coleg gan guro 26 tîm arall yn Cambria gyda'u syniad busnes mewn cystadleuaeth Menter fewnol a gafodd ei lansio yn ystod y tymor cyntaf. [wales-wide-coronavirus-business-challenge/](https://www.cambria.ac.uk/wales-wide-coronavirus-business-challenge/)
- Llwyddodd 91 o fyfyrwyr (21 grŵp) o lâl a Cheched Glannau Dyfrdwy i gwblhau ac uwchlwytho eu Her Menter Coleg Cambria yn ystod Wythnos Entrepreneuriaeth Fyd-eang. Cafodd y tîm buddugol ei ddewis i gynrychioli Coleg Cambria yn y Gystadleuaeth Menter, Cystadleuaeth Sgiliau Cymru yn Chwefror 2022.
- Dewiswyd 4 myfyriwr allan o 25 o fyfyrwyr o ddsbarth TG Uwch lâl. Cawsant eu cyflwyno i Sharon Jones (@FJones\_Initiative), gan greu gwefan ar gyfer y sefydliad elusennol fel eu profiad gwaith. Mae'r elusen wedi creu menter gwobr cydnabyddiaeth er mwyn rhoi ffocws cadarnhaol ar Wrecsam. Mae partneriaid eraill yn cynnwys AVOW, Lot 11, Fat Boar, Wrexham Lager, The Bank Bistro.
- Cystadleuaeth Pen-blwydd Gwaith Dur Tata, Shotton: <https://www.cambria.ac.uk/a-coleg-cambria-student-showed-his-mettle-in-winning-a-competition-to-design-a-sculpture-for-a-pioneering-steel-companys-125th-anniversar-y/>

Gweithiodd Coleg Cambria gyda chwmni Tata Steel i greu cystadleuaeth arloesol i ddylunio cerflun i ddathlu 125 mlynedd o wneud dur yn Shotton. Enillodd Luka Mitchell, myfyriwr Safon Uwch, fil o bunnau a'r cyfle i weld y cerflun a ddyluniodd yn cael ei greu ym mis Medi 2021 (gan adran Gwnethuro a Weldio Coleg Cambria) a'i arddangos yng Ngwaith Dur Tata Shotton ar gyfer y dyfodol. Dyluniwyd a rhyddhawyd y gystadleuaeth i bob un o ddysgwyr Cambria ym mis Mawrth gan weithio

## Entrepreneuriaeth leuenctid - Adroddiad Effaith 2021

gyda chwmni Dur Tata, artistiaid ac arbenigwyr weldio trwy Goggle calssroom. Derbyniodd Jan Agbayani, a ddaeth yn ail, £200 a chafodd y myfyrwyr gwblhaodd eu cynigion tocyn £10 yr un am gymryd rhan. Daeth y gystadleuaeth â Buddsoddiad Sector Breifat werthfawr i'r Coleg (gan gynnwys deunyddiau, mewnbwn gan arbenigwyr yn y diwydiant) ond ar ben hynny darparodd cyfleoedd ymgysylltu a dysgu amhrisiadwy i gyflogwyr a myfyrwyr.

- Bu 3 myfyriwr yn cymryd rhan yn yr Hac Caredigwydd Rhithiol gyntaf - Hacathon ar gyfer colegau AB a gafodd ei hwyluso gan Ganolfan Cydweithredol Cymru. Roedd gan Ben, Riccardo a Sophie eisiau hybu cyfleoedd cyflogadwyedd i bobl ifanc gydag anabledd gyda siop goffi dros dro wedi ei redeg gan fyfyrwyr gydag anabledd er mwyn datblygu eu sgiliau a chynnig profiad gwaith: Coffe-E-Quality. Wrth weithio law yn llaw gyda myfyrwyr Lletygarwch ac Arlwyo, llwyddodd Coffe-E-Quality i godi cannoedd o bunnoedd ar gyfer elusennau gan hyrwyddo profiad gwaith ystyrlon i fyfyrwyr difreintiedig ac anabl.  
<https://www.cambria.ac.uk/students-stirred-up-a-latte-interest-in-their-brilliant-business-ide>
- Roedd 40 o fyfyrwyr y Cyfryngau (9 tîm) wedi cymryd rhan mewn cyflwyniadau byw cyntaf o'u syniadau busnes yn ystod 2021 mewn digwyddiad tebyg i Dragons Den ym mis Rhagfyr.

Mae ein partneriaid yn y gymuned, y rhanbarth a ledled y DU wedi bod mor werthfawr gan gynnig cyfleoedd i fyfyrwyr ddatblygu eu sgiliau entrepreneuriaidd a chyflogadwyedd yn ogystal â mireinio eu sgiliau technegol. Manteisiodd myfyrwyr Coleg Cambria o fewnbwn gan Fodelau Rôl Syniadau Mawr Cymru yn ystod cyfnod y pandemig. Mae'r sesiynau yn fuddiol i fyfyrwyr a staff, maen nhw'n ffynhonnell amhrisiadwy o ddatblygiad proffesiynol parhaus ac yn gyfle i gysylltu â chyflogwyr lleol. Mae Llinellfusnes a Busnes Cymru yn parhau i fod yn ffynonellau gwerthfawr dros ben, yn ogystal â thîm y Town Square yn Wrecsam. Mae Town Square yn adnodd da i gael wrth law i gyfeirio myfyrwyr (a staff) at le i gael cymorth a rhagor o wybodaeth gan Fusnes Cymru neu Glybiau 5-9 a sesiynau Dechraun Busnes. Roedd rhain i gyd yn parhau i fod ar gael ar-lein.

Gwnaeth ddarpariaeth Entrepreneuriaeth elwa o fewnbwn gan Ymddiriedolaeth y Tywysog. Hefyd trwy gefnogaeth gan Cadwyn Clwyd a phartneriaid yn ein Grwpiau Gweithredol Lleol megis Town Square, Cyfieithu Cymunedol, Busnes Cymru, Prifysgol Glyndŵr, AVOW, Remploi, Cyngor Sir Wrecsam, Brymbo Heritage, Groundworks, DWP ac entrepreneuriaid lleol megis Aballu. Mae myfyrwyr wedi cael y cyfle i edrych ar gynigion menter leol, rhwydwaith, ac wedi cael y cyfle i wirfoddoli a rhoi adborth ar brosiectau menter leol.

### EQUIP

Cafodd 69 o fyfyrwyr eu cefnogi i sefydlu a datblygu busnes â phob un yn cael eu cefnogi i brofi masnachu, cafodd 23 gefnogaeth cyn dechrau busnes a 4 wedi dechrau busnes eu hunain. Roedd y syniadau busnes yn amrywio o grefftiau wedi'u hailgylchu, marchnata'r cyfryngau cymdeithasol, teganau a modelau o'r gorffennol, ymgynghoriad eiddo, printio 3D, gofal anifeiliaid anwes a thwtio anifeiliaid.

Uchafbwynt o 2021 oedd 6 diwrnod o fasnachu fel rhan o'r Farchnad Nadolig Awyr Agored ar ei newydd wedd (Glannau Dyfrdwy ac Iâl):

<https://www.fenews.co.uk/education/college-christmas-markets-will-bring-festive-cheer-to-north-wales-t-his-winter/>

## **Entrepreneuriaeth Ieuenctid - Adroddiad Effaith 2021**

Aeth gwahoddiad allan i'r holl fyfyrwyr yn ystod Wythnos Entrepreneuriaeth Fyd-eang i ymuno ar farchnad a rhedeg stondin. Roedd sesiynau rhithiol wedi eu trefnu i gefnogi 9 o fasnachwyr myfyrwyr unigol er mwyn eu cynorthwyo wrth iddynt ddewis eu cynnyrch, prisio, cyflwyniad (y stondin a nhw eu hunain) a sgiliau gwerthu er mwyn eu paratoi ar gyfer y farchnad. Roedd 7 myfyriwr yn masnachu ym mis Rhagfyr. Yn ogystal â'r masnachwyr unigol uchod, bu myfyrwyr o ddosbarthiadau Sgiliau Sylfaenol a Sgiliau Byw'n Annibynnol o Laneurgain, Iâl a Glannau Dyfrdwy wedi creu crefftau hardd, anrhegion Nadolig a chardiau. Gweithiodd y myfyrwyr yn ôl amserlen (gyda chefnogaeth staff Coleg Cambria). Roedd yn wirioneddol gwerth chweil cael gweithio ar brosiect "byw" gyda myfyrwyr (tua 50 i gyd) a staff. Codwyd dros £1600 gan y myfyrwyr er budd elusen Alder Hey.

Mae Coleg Cambria yn goleg uchelgeisiol: i'w fyfyrwyr ac i'w gymunedau. Yn sicr mae 2021 wedi'n haddysgu ni bod rhaid i fyfyrwyr entrepreneuriaeth fod yn chwim, a chawsom sawl cyfle i ddatblygu'n gyson er mwyn i'r ieuenctid ennill sgiliau ar gyfer dyfodol llwyddiannus, llewyrchus, iach a chynaliadwy.